

BWLETIN MISOL

MEDI 2026



Negeseuon gan dîm SSCE Cymru...

“Croeso yn ôl! Rydym yn gobeithio eich bod wedi cael haf hamffwys ac yn barod ar gyfer y flwyddyn academiaidd newydd yr hydref hwn.

Croeso arbennig i unrhyw blant, pobl ifanc a theuluoedd newydd y Lluoedd Arfog sydd wedi symud i Gymru yn ddiweddar. Rydym yn gwybod pa mor heriol y gall dechrau ysgol newydd fod i blant y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd, felly efallai y bydd staff yr ysgol yn dymuno tynnu sylw at unrhyw glybiau neu rwydweithiau cymorth sydd ar gael ar gyfer disgyblion sy'n gysylltiedig â'r fyddin. Ac os oes gan eich ysgol statws [Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru](#), gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod i unrhyw newydd-ddyfodiaid fod aelod staff dynodedig eisoes ar waith i gynnig cymorth wedi'i deilwra.

Wrth i'r tymor ddechrau, er mwyn helpu unrhyw ddisgyblion newydd i reoli'r trawsnewidiad hwn, efallai y bydd ysgolion yn ei chael hi'n ddefnyddiol rhannu dolenni i'n ffilmiau Profiadau Plant y Lluoedd Arfog, gall clywed gan ein llysgenhadon gynnig sicrwydd ac ymdeimlad o berthyn. Neu hefyd mae dolenni defnyddiol eraill ar gyfer adnoddau a argymhellir ar gael ar [Padlet SSCE Cymru](#).

Bydd SSCE Cymru yn parhau i gefnogi ysgolion gyda phlant y Lluoedd Arfog drwy gydol y flwyddyn academiaidd hon. Am gyngor, adnoddau, neu arweiniad, cysylltwch â ni yn SSCECymru@wlga.gov.uk.”



Millie
Rheolwr
Rhaglen



Jo
Swyddog Arweiniol
Cyfranogiad




Yasmin
Swyddog
Cyswllt Ysgolion



Cara
Swyddog
Cyswllt Ysgolion



Becca
Swyddog
Cyswllt Ysgolion



Mae hyn yn gyfle i'n tîm gydnabod SEREN SSCE Cymru yn gyhoeddus, a dweud diolch i blentyn y Lluoedd Arfog, aelod o staff ysgol, cydweithiwr gwaith, aelod o'r rhwydwaith neu sefydliad sydd wedi cydweithio'n gadarnhaol â ni neu wedi dangos cefnogaeth eithriadol i blant milwyr mewn addysg a'u cymuned Lluoedd Arfog lleol. Rydym yn ddiolchgar i weithio gydag unigolion a grwpiau gwirioneddol ysbrydoledig sy'n sicrhau bod plant y Lluoedd Arfog yn parhau i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u dathlu yma yng Nghymru.

Seren y mis – Medi 2026

Mae Capten Williams yn dangos caredigrwydd, proffesiynoldeb ac ymrwymiad cryf yn gyson i gefnogi plant y Lluoedd Arfog yn ardal Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Mae Capten Williams yn eiriolwr enfawr dros SSCE Cymru, mae'n mynd y tu hwnt i adeiladu perthynas gadarnhaol gydag ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid cymunedol, gan sicrhau bod anghenion plant y Lluoedd Arfog yn parhau i fod yn flaenoriaeth.


Mae ei ymroddiad wedi bod yn arbennig o amlwg trwy ei gefnogaeth i ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot, yn enwedig ei waith gydag Ysgol Gynradd Baglan, lle mae ei ymrwymiad wedi helpu i gryfhau cysylltiadau a chreu cyfleoedd gwerthfawr i'w clwb Little Troopers. Chwaraeodd Capten Williams ran allweddol hefyd yn Ilwyddiant Gŵyl Lluoedd Arfog Abertawe, gan weithio y tu ôl i'r llenni a thrwy weithio mewn partneriaeth effeithiol i helpu i gyflwyno digwyddiad cofiadwy ac effeithiol i blant y Lluoedd Arfog yn Abertawe.

Mae ei barodrwydd i helpu, ei agwedd gadarnhaol, a'i angerdd gwirioneddol dros wneud gwahaniaeth yn dangos gwerthoedd cydweithredu a chefnogaeth.

Diolch yn fawr, Huw, a llongyfarchiadau ar fod yn Seren y Mis.



Captain Huw Williams
157 (Welsh) Regt RLC



ssce
CYMRU

SUPPORTING SERVICE CHILDREN
IN EDUCATION IN WALES

CEFNOCI PLANT MILWYR MEWN
ADDYSG YNG NGHYMRU



Lansiwyd menter Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog (AFFS) Cymru SSCE Cymru yn 2022. Mae ysgolion yng Nghymru yn cwblhau cyfres o weithgareddau a chymau gweithredu sy'n gysylltiedig â Rhestr Wirio Ysgolion SSCE Cymru, gan gynnwys rhai elfennau gorfodol, er mwyn cyflawni eu statws Efydd, yna Arian ac yna Aur. Yr amcanion yw ymgorffori arfer da ar gyfer cefnogi plant y Lluoedd Arfog, creu amgylchedd cadarnhaol i blant y Lluoedd Arfog rannu eu profiadau ac annog ysgolion i ymgysylltu'n well â chymuned eu Lluoedd Arfog.

Y mis hwn, rydym yn falch o longyfarch yr ysgolion canlynol am gyflawni eu statws AFFS Cymru:

Efydd: Ysgol Gyfun Porthcawl (Pen-y-bont ar Ogwr)

Aur: Ysgol Gynradd Cwmclydach (Rhondda Cynon Taf)


Llongyfarchiadau i bob ysgol sydd wedi cyflawni eu statws Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru. Hyd yn hyn, mae 52 o ysgolion wedi cyflawni eu statws AFFS Cymru. Mae 52 wedi ennill Efydd, 18 wedi ennill Arian a 10 wedi ennill Aur!!



52



18



10



Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth am Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru

Cylchgrawn SSCE Cymru


Mae cyfnodolyn SSCE Cymru yn rhoi trosolwg o'r gweithgareddau a'r digwyddiadau y mae tîm ac aelodau'r rhwydwaith SSCE Cymru wedi bod yn rhan ohonynt. Mae'r canlynol yn rhai o'r ychwanegiadau diweddar i'r cylchgrawn.



SSCE Cymru yn Diwrnod Cenedlaethol y Gorfodaeth Arfog



Lansio Addewid Disgyblion y Lluoedd Arfog
Castell-nedd Port Talbot ac Ysgol Gynradd Baglan
yn dathlu adnewyddu eu statws Aur AFFS Cymru



Gŵyl blant y Lluoedd Arfog
Ysgolion Castell-nedd Port Talbot



Disgyblion Ysgol Bae Baglan yn
dringo Pen y Fan am Help i Arwyr



Ddathliad Cystadleuaeth Mis y
Plentyn Milwrol 2026 Never
Such Innocence

Data Plant milwyr 2026/27

Mae SSCE Cymru yn cefnogi'r awdurdod lleol i gasglu data *Plant milwyr eleni. Mae data blaenorol yn dangos bod dros 35% o ysgolion yng Nghymru wedi cofrestru *Plant milwyr gyda dim ond 1-2 o blant.

Pam rydym yn gofyn i chi gasglu data am blant milwyr:

- Mae nodi plant milwyr yn caniatáu i ysgolion ddarparu cymorth priodol iddynt
- Gall ysgolion gael gafael ar gyllid i gefnogi anghenion eu plant Lluoedd Arfog
- Gellir gwneud cymariaethau ar lefelau cyrhaeddiad rhwng plant Gwasanaeth a phlant nad ydynt yn aelodau o'r Lluoedd Arfog.
- Gall awdurdodau lleol baratoi i gefnogi plant y Lluoedd Arfog gyda'u hanghenion iechyd meddwl a lles
- Gall SSCE Cymru ddarparu cymorth, adnoddau a hyfforddiant i ysgolion ddeall a chefnogi eu plant milwyr yn well ar sail eu profiadau a'u hanghenion unigryw.

DYDDIAD
CAU:
31 Hydref

Diffiniad newydd Llywodraeth Cymru o *blentyn y Lluoedd Arfog (o Ebrill 2026):

Plentyn y Lluoedd Arfog yw plentyn sydd â rhiant/rhieni neu ofalwr/ofalwyr gyda chyfrifoldeb rhiant sydd:

- **Yn gwasanaethu ar hyn o bryd** yn Lluoedd Arfog Rheolaidd neu Wrth Gefn EF – y Llynges Frenhinol neu'r Môr-filwyr Brenhinol, Byddin Prydain, neu'r Llu Awyr Brenhinol.
- **Wedi gwasanaethu** yn y Lluoedd Arfog yn flaenorol ac wedi gadael yn y chwe blynedd ddiwethaf.
- **Wedi marw wrth wasanaethu** yn y Lluoedd Arfog, ac mae'r plentyn yn derbyn pensiwn dan Gynllun lawndal y Lluoedd Arfog neu'r Cynllun Pensiwn Rhyfel.

Mae SSCE Cymru hefyd yn annog ysgolion i ystyried adnabod plant a phobl ifanc sydd ynghlwm â'r Lluoedd Arfog.

Cliciwch
yma i
gyflwyno
eich data

SYLWER: Rhowch wybod i ni hefyd os nad oes gennych blant y Lluoedd Arfog wedi cofrestru yn eich ysgol ar hyn o bryd.

Gweithdai Never Such Innocence



Mae [Never Such Innocence](#) yn cynllunio taith [gweithdy](#) arall i Gymru ar gyfer naill ai *Sgwrs ar Wrthdaro* neu *Lleisiau Plant y Lluoedd Arfog* ym mis Hydref 2026.

Rhaglen Lleisiau Plant y Lluoedd Arfog – Mae'r prosiect hwn yn archwilio profiadau plant y Lluoedd Arfog trwy gelf a barddoniaeth. Bydd y thema ar gyfer 2027 yn cael ei chyhoeddi yn y flwyddyn academaidd newydd.

Sgwrs ar Wrthdaro – Trwy Fy Llygaid Mae'r prosiect hwn yn rhoi llwyfan i bobl ifanc rannu eu safbwyntiau ar wrthdaro byd-eang trwy farddoniaeth, celf a ffilm.

Digwyddiadau i ddod

YDYCH CHI'N GWEITHIO GYDA PHLANT O DEULUEDD Y LLUEDD ARFOG?

YSGOLION IEUENCTID / CYMDEITHASOL / GWAITH
CYMUNEDOL . GIG . CLYBIAU CHWARAEON
AWDURDODAU LLEOL
CANOLFANNAU GWEITHGAREDDAU

Dywedwch wrthym beth sy'n gweithio!



TAITH WRANDO CANOLFAN EFFAITH

CYMRU

14/09/2026
15/10/2026

AR-LIN
BRECON

DARGANFYDDWCH FWY AC ARCHEBWCH
scipalliance.org/events



METHU YMUNNO?
Ffyrdd eraill o dddeud
wrthym beth ydych
chi'n ei feddwl yma

University of Winchester ethics approved: HSSE16208

Service Children's Progression
ALLIANCE

Cynhadledd Cynghrai SCiP 2026



18 Tachwedd 26

YORK

10 MLYNEDD MEWN
PARTNERIAETH

Bydd y gynhadledd eleni yn canolbwyntio ar
werth partneriaethau - archwilio ein cyflawniadau
a sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i gyflawni
mwy i blant o deuluoedd y Lluoedd Arfog.

Digwyddiadau i ddod

Cofio 2026

11 Tachwedd 2026

Mae Coffáu yn anrhydeddu'r rhai sy'n amddiffyn ein rhyddid democrataidd a'n ffordd o fyw.



Cyllid

Cronfa Cefnogi Plant Milwyr mewn Addysg yng Nghymru

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru wneud cais am gyllid grant i gyflawni prosiectau ac ymyriadau yn ystod blwyddyn academiaidd 2026/27, i ddarparu cymorth i blant y Lluoedd Arfog sy'n bodloni diffiniad Llywodraeth Cymru o plentyn y Lluoedd Arfog. Mae tri grant ar gael.

Grantiau prosiect bach

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru wneud cais am grant bach i gyflawni prosiect sy'n darparu cymorth i'w plant y Lluoedd Arfog.

Prosiectau hyd at £500 – ar agor i bob awdurdod lleol ac ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru.

Prosiectau hyd at £1,000 – ar agor i bob awdurdod lleol yng Nghymru ac ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â statws dilys Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru.

Themâu blaenoriaeth:

- Cymorth academiaidd
- Cymorth lles
- Llais plant y Lluoedd Arfog.

Dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau:

Rownd 1: 9 Hydref 2026
Rownd 2: 11 Rhagfyr 2026

Grant Mis y Plentyn Milwrol

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru wneud cais am hyd at £500 i gyflwyno gweithgareddau a dathliadau yn ystod Mis Plentyn Milwrol ym mis Ebrill.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:

12th Chwefror 2027

Grant ymyrraeth

Gall ysgolion yng Nghymru wneud cais am hyd at £500 i ddarparu cymorth tymor byr, wedi'i dargedu i blentyn y Lluoedd Arfog unigol neu nifer fach o blant y Lluoedd Arfog, i helpu i fynd i'r afael â rhwystrau uniongyrchol i ddysgu, lles ac ymgysylltu oherwydd effaith ffordd o fyw y Lluoedd Arfog.

Gellir cyflwyno ceisiadau ar unrhyw adeg trwy gydol y flwyddyn academiaidd a byddant yn cael eu hadolygu o fewn 14 diwrnod i'w cyflwyno.

Rhaglen Cefnogi Disgyblion y Lluoedd Arfog 2027

Bydd y rhaglen 'Service Pupil Support Programme' (SPS) y Weinyddiaeth Amddiffyn yn dyfarnu grantiau at brosiect annibynnol sy'n cael ei gyflwyno dros gyfnod o hyd at ddwy flynedd, i gefnogi plant y Lluoedd Arfog ar hyd eu llwybr addysgol.

Mae'r rhaglen SPS yn agored i ysgolion, lleoliadau Addysg Bellach ac awdurdodau lleol.

NODER: Anogir ysgolion i weithio ar y cyd a gwneud cais mewn clwstwr.

 **Gweler rhagor o wybodaeth yma**

Themâu ar gyfer prosiect 2027 yw:

- Cau'r bwlch.
- Cymorth i ddisgyblion gydag ADY.
- Symudedd, lleoli a gwahanu.
- Niferoedd isel o ddisgyblion y Lluoedd Arfog.

DYDDIAD
CAU: 30
Medi

Ddogfen cyngor ariannol SSCE Cymru

Mae'r dogfennau hyn yn darparu cyngor gan dîm SSCE Cymru ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol, i'w cynorthwyo wrth wneud cais am gyllid i gefnogi plant y Lluoedd Arfog / cymuned leol y Lluoedd Arfog. Mae'r rhestr wirio yn cynnwys camau gweithredu a awgrymir i helpu wrth baratoi a chwblhau cais am gyllid. Mae'r ddogfen syniadau ac awgrymiadau yn cynnwys enghreifftiau o weithgareddau y gallai ymgeiswyr eu hymgorffori fel rhan o brosiectau a ariennir i gefnogi plant y Lluoedd Arfog.

 **Gweler mwy o wybodaeth yma**

Sesiynau galw heibio ariannol

Nod y sesiynau galw heibio anffurfiol hyn yw cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru i gael mynediad at gyllid i gefnogi plant y Lluoedd Arfog mewn addysg.

Sesiynau galw heibio sydd i ddod:

Dydd Llun 7 Medi 15:30-16:30

Dydd Mercher 23 Medi 09:00-10:00

 **Gweler mwy o wybodaeth yma**